CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 9 Ionawr 2017

Presennol: Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Iwan Davies, Colin Lewis, Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Hywel Davies, Mrs A Edwards, P Hazzelby, Mrs K Morgan, B Rees

Ymunodd y Cynghorydd Sirol H Lewis â'r cyfarfod fel y dangosir yn y cofnodion.

Aelodau'r cyhoedd: 0

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs J Hawkes.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**

Llongyfarchwyd y Cyng K Symmons ar benodiad ei ferch i Brifysgol Queens Belfast.

Cytunwyd i ysgrifennu llythyr i longyfarch Mr Lyndon Lloyd, a oedd wedi cael MBE am ei wasanaethau i Age Cymru.
**GWEITHREDU:** Ysgrifennu llythyr **GAN:** y Clerc

*Ymunodd y Cyng Sirol H Lewis â'r cyfarfod*

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dywedodd y Clerc y byddai swyddogion Gorfodi Cynllunio CS Ceredigion yn ymweld â'r safle yn y pentref, a oedd fel petai'n gweithredu fel canolfan arddio ar raddfa fechan.

A161159 Addasu ysgubor i estyn ystafelloedd byw i annedd presennol, gan gynnwys rhandy a gwaith cysylltiedig Cwr Coed, Llangoedmor
Ar ôl trafod, cytunwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r cais.

Dywedodd y CS H Lewis y dylid cael hysbysiad am gyfarfod safle ynghylch y cais gan Fodurdy Robert Davies.

*Gadawodd y CS H Lewis y cyfarfod.*

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Gofynnodd y Cyng C Lewis am newid eitem 15 i ddarllen 'canolfan arddio fechan heb ddim 'caniatâd am newid defnydd'. Wedi cadarnhau hyn, cytunodd y rhai a oedd yn bresennol fod y cofnodion yn gofnod cywir.

**7. Materion yn Codi**
Holodd y Cyng Mrs A Edwards beth yn union oedd yn digwydd yn Corner Wood gan iddi ddweud, yn y cyfarfod diwethaf, fod 'y cartref symudol wedi'i symud'. Ar ôl trafod cytunwyd y byddai'r Clerc yn ceisio cael gwybod rhagor am y safle gan CSC.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CCS **GAN:** y Clerc

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Abacus | Glanhau bloc y toiledau | 170.00 | |
| | Telemat | Amddiffyn rhag firysau | 20.95 | |
| | Canolfan Blant Jig-So | Rhodd | 200.00 | |
| | Mr R Harman | Biniau | 60.00 | |
| | Dŵr Cymru | Bil dŵr – toiledau | 450.63 | |
| | SSE | Bil trydan Swalec | 21.67 | |
| | Ms M Jones | Cyfieithu | 120.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Llogi ystafell Tach/Rhag 12 | 30.00 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y cartref | 25.00 | |
| 30.01.17 | S E Houghton | Cyflog Rhag | 330.18 | AS |
| | | | 1,428.43 | |

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards dderbyn y cyfrifon, eiliwyd gan y Cyng H Davies a chymeradwywyd y cyfrifon yn unfrydol.

Roedd Mr Harman wedi rhoi gwybod na fyddai'n gallu gwacau'r biniau i'r Cyngor ragor. Awgrymodd hefyd yr hoffai'r Cyngor efallai ystyried bin(iau) baw cŵn yn ogystal â'r biniau arferol. Dywedodd y Clerc nad ystyrir bod baw cŵn yn wenwynig ac y gellid ei waredu gyda'r gwastraff arferol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Mr E Brown, a fyddai'n cymryd drosodd y contract torri porfa ar gyfer 17/18 a gofyn a fyddai'n fodlon gwacau'r biniau bob wythnos rhwng mis Ebrill a mis Hydref.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Mr Brown **GAN:** y Clerc

Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod baw cŵn bellach yn broblem eto ym Maesyderi a bod Tai Ceredigion wedi cael gwybod.

Llythyrau o ddiolch am roddion a gafwyd gan: RABI, Shelter Cymru a Chyfeillion Amgueddfa Ceredigion. Nodwyd.

Gweddill ar ôl ei gymhwyso (i'w wirio oherwydd dim ond heddiw y cafwyd y gyfriflen) £15728.30

*Grant mynwentydd* – Ar ôl trafod cytunwyd y dylid rhoi dyfynbris o £800 ar gyfer y flwyddyn 16/17 am y gwaith mynwentydd.
**GWEITHREDU:** Hawlio grant gan y Sir **GAN:** y Clerc

*Dadansoddiad o gostau'r bil dŵr* – nodwyd y dadansoddiad o gostau a chytunwyd y byddai'r Clerc yn parhau i roi'r wybodaeth ar ôl cael pob bil.

*Diweddaru Cyllideb 16/17 hyd 31.12.16* – nodwyd.

*Penodi archwiliwr mewnol*
Cytunwyd i ofyn i Ms J Jamison gynnal yr archwiliad mewnol ar gyfer cyfrifon 16/17.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Mrs J Jamison **GAN:** y Clerc

*Digwyddiad trafod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol* – Cytunwyd y byddai'r Clerc yn mynd i'r sesiwn yn Llanbedr Pont Steffan ar 2 Chwefror, 10.30 – 12.30. Byddai'r Clerc yn gofyn i Gyngor Cymuned Llandudoch dalu hanner y costau.
**GWEITHREDU**: Cadw lle yn y digwyddiad a gofyn i Gyngor Cymuned Llandudoch dalu hanner y costau.
**GAN**: y Clerc

*Cais y Clerc am wyliau:* 24 Mawrth hyd 29 Mawrth 2017 cynhwysol.
Cytunwyd i'r cais am wyliau.

Dywedodd y Clerc ei bod yn gobeithio cwblhau'r gwaith TAW a symud ymlaen i PAYE am y byddai Ionawr yn debygol o fod yn dawelach.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*Safleoedd i'r blychau blodau*
Roedd CSC wedi cymeradwyo 3 safle ar gyfer blychau blodau, wrth y groesffordd i Groes-y-llan, diwedd Lôn y Ladi ac wrth ymyl plac y pentref yn Green Hill. Nodwyd y byddai blodau'n cael eu plannu hefyd yn yr ardal dan yr hysbysfwrdd yn y maes parcio. Roedd angen i'r Clerc anfon tystiolaeth o yswiriant 3ydd parti'r Cyngor at CSC. Roedd y melinau llifio wedi cytuno am y tro i roi pren ar gyfer y blychau blodau. Gofynnodd y Clerc i'r Cadeirydd gysylltu'n nawr â'r melinau llifio (ar ôl i'r Clerc gysylltu'n wreiddiol, gan fod tipyn o amser wedi mynd ers y cynnig) i sicrhau bod y pren priodol ar gael ac i fwrw ymlaen â'r adeiladu. Cytunodd y Cadeirydd i hyn.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r Melinau Llifio **GAN:** y Clerc

Dywedodd y Clerc y dylai'r Cyngor ddechrau ystyried pa fath o flodau i'w plannu (drwy gydol y flwyddyn gyda diddordeb ychwanegol yn yr haf neu flodau unflwydd) a hefyd cytuno ar waith cynnal a chadw wythnosol i'r blychau (tynnu pennau blodau wedi gwywo, chwynnu, dyfrhau ac ati).
**GWEITHREDU:** Cyngr i ofyn i gymdogion y safleoedd arfaethedig a fyddent yn fodlon helpu cynnal a chadw'r blychau blodau.

**10. Amwynderau**

*Siglenni Plant Iau,* cae chwarae, Llechryd, fel yn ôl y cynnig arbennig, dyddiedig 13/12/16, a gafwyd gan y Swyddog Priodol ar 13/12/16

Roedd adroddiad yr arolygydd lleoedd chwarae wedi datgan 'diwedd oes' oherwydd gallai uniadau ar y math hwn o adeiladwaith o'r oedran hwn dorri'n ddirybudd. Am fod y cyfarpar hwn wedi'i osod cyn y safonau cyfredol ar gyfer lleoedd chwarae, adlewyrchwyd hyn yn y categori a ddyfarnwyd iddo er gwaethaf diwedd oes. Roedd y Clerc wedi siarad â'r arolygydd cyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf a'i gyngor ef oedd drilio pob uniad, chwilio am rwd a gosod uniadau newydd yn ôl yr angen, a weldio pob uniad neu osod siglenni newydd yn lle'r rhai presennol. Ar ôl trafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf, cytunodd y Cyngor i osod siglenni newydd ac arwyneb newydd a chafwyd dyfynbrisiau. Byddai arian yn cael ei godi drwy'r praesept ac unrhyw grantiau a oedd ar gael.

Ar ôl trafod cytunwyd y byddai'r Cyng C Lewis a'r Cyng H Davies yn edrych ar y siglenni i weld a ellid eu cryfhau'n ddiogel. Ni fyddai'r siglenni'n cael seddi newydd nes yr ystyrid bod y siglenni'n ddiogel i'w defnyddio.
**GWEITHREDU:** Edrych ar y siglenni a rhoi gwybodaeth i gyfarfod mis Chwefror. **GAN:** Cyngr C Lewis a H Davies.

*Y Toiledau Cyhoeddus*
Tapiau – roedd y Clerc wedi cysylltu â CSC ond nid oedd wedi cael ymateb eto. Cytunwyd i ofyn i'r plymwr am ddyfynbris am dapiau newydd o safon yn nhoiledau'r merched a'r dynion. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd er mwyn i'r gwaith fynd yn ei flaen.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r plymwr **GAN:** y Clerc

Nid oedd y gwaith trydanol wedi digwydd eto. Cytunwyd i ofyn i'r trydanwr edrych ar y goleuadau allanol tra byddai ar y safle.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r trydanwr **GAN:** y Clerc

Nid oedd y Clerc wedi ymchwilio eto i drosglwyddiad posibl i'r Elusen.

Roedd gan Mr E Rees set gyfan o allweddi i'r bloc erbyn hyn, roedd gan y Clerc set gyfan o allweddi, ac roedd set sbâr ar gael i'w hongian yn swyddfa Neuadd y Cwrwgl. Byddai'r Cadeirydd yn mynd â'r allwedd sbâr i'r cwpwrdd gwasanaethau.

*Mr Leigh – Mainc*
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards ei bod wedi siarad ag adeiladwr lleol ar ran Mr Leigh ac y byddai'r adeiladwr yn gosod plinth ac yn gosod y fainc. Byddai Mr Leigh yn talu am y gwaith.

**11. Prosiectau'n parhau**

*Cadw llygad ar gyflymdra*
Dywedodd y Cyng C Lewis nad oedd dim datblygiadau newydd i roi gwybod amdanynt.

*Llythyr Newyddion*
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards nad oedd dim cynnydd pellach i roi gwybod amdano.

*Diffibrileiddiwr*
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards y byddai'n trefnu dyddiad ar gyfer hyfforddiant pellach.
**GWEITHREDU:** Trefnu dyddiad hyfforddi **GAN:** y Cyng Mrs A Edwards.

**12. Digwyddiadau**
Sgwrs am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Neuadd Goffa Llandudoch, 7pm, 12.01.17
Nodwyd.

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth a gohebiaeth e-bost**
Gohebiaeth i Weithredu yn ei Chylch:
Ymgynghoriad ar gynnig i waredu hawl y Cyngor Tref a Chymuned i enwebu Llywodraethwr Cymuned ychwanegol. Dyddiad cau 17.02.17
Cytunwyd i ymateb gan nodi pwysigrwydd y cysylltiad lleol iawn rhwng y Cyngor Cymuned a'r ysgol a fyddai'n cael ei erydu pe na allai'r Cyngor Cymuned benodi Llywodraethwr.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC **GAN:** y Clerc

Digwyddiad ymgynghori â'r gymuned cyn ymgeisio – cynllunio, Abertawe 17 Ionawr, 10 tan 4, £15 a TAW. Awgrymodd y Cyng C Lewis y byddai hwn yn hyfforddiant defnyddiol. Cytunodd y Clerc i weld a allai fynd, a chysylltu â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
**GWEITHREDU:** Y Clerc i weld a allai fynd.

YMGYNGHORI AR AMCANION LLESIANT 2017-18 CYNGOR SIR CEREDIGION – yn cau 10 Chwefror 2017
Cytunwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol ac yn gofyn am gael gwybod o hyd am y cynnydd a'r gweithredu diweddaraf.
**GWEITHREDU:** Ymateb i CSC **GAN:** y Clerc

*Nodwyd:*
Digwyddiadau ymgysylltu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Llanelli, 31.01.17, 10.30 – 12.30

Yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG).

Ymgynghoriad ynglŷn â newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol

Hyfforddiant Ionawr Un Llais Cymru

Swyddogol: Penodiadau cyhoeddus yng Nghymru

Llywodraeth Cymru'n 'paratoi'n dda i ymgymryd â datganoli cyllidol'

Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Rhaglen Newydd Gwanwyn 2017 – Theatr Felin-fach

Ymgynghoriad y DU ar gynigion i wahardd meicro-leiniau plastig mewn cynhyrchion gofal personol a cholur

Swyddogol : Penodi Cadeirydd ac Aelodau i Hybu Cig Cymru

Brwydr ar Ben – Teyrnged Cenedl 100 mlynedd o Goffadwriaeth / 11 Tachwedd 2017

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi cael cais i ddefnyddio tir segur ym Maesyderi ar gyfer cynllun gardd gymunedol. Er bod y Cyngor yn cefnogi egwyddor y cynnig, nodwyd bod y tir yn eiddo i Dai Ceredigion ac y byddai caniatâd y corff hwnnw'n ofynnol.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6.02.17 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm*.